**CYHOEDDIAD**

# Cyfarfod y Cabinet: 14 Mawrth 2022

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet ar 14 Mawrth 2022.

Cyhoeddwyd gyntaf: 29 Ebrill 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 29 Ebrill 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-14-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

[Present](#present)

[Wcráin](#wcrain)

[Cyfarfod blaenorol](#cyfarfod-blaenorol)

[Busnes y Senedd](#busnes-y-senedd)

# Present

- Y Gwir Anrh. Mark Drakeford AS
- Rebecca Evans AS
- Vaughan Gething AS
- Lesley Griffiths AS
- Jane Hutt AS
- Julie James AS
- Jeremy Miles AS
- Eluned Morgan AS
- Mick Antoniw AS

- Dawn Bowden AS
- Hannah Blythyn AS
- Julie Morgan AS
- Lynne Neagle AS
- Lee Waters AS

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-14-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Allanol

- Ruth Marks, Prif Weithredwr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (eitem 1)
- Andrew Morgan, Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (eitem 1)

## Swyddogion

- Andrew Goodall, Yr Ysgrifennydd Parhaol
- Des Clifford, Cyfarwyddwr Cyffredinol Swyddfa'r Prif Weinidog
- Will Whiteley, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran y Cabinet
- Toby Mason, Cyfathrebu Strategol
- Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
- Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig
- Alex Bevan, Cynghorydd Arbennig
- Daniel Butler, Cynghorydd Arbennig
- Ian Butler, Cynghorydd Arbennig
- Kate Edmunds, Cynghorydd Arbennig
- Sara Faye, Cynghorydd Arbennig
- Clare Jenkins, Cynghorydd Arbennig
- Owen John, Cynghorydd Arbennig
- Andrew Johnson, Cynghorydd Arbennig
- Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
- Christopher W Morgan, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Cabinet (cofnodion)
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Catrin Sully, Swyddfa'r Cabinet
- Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
- Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cydgysylltu'r Argyfwng COVID-19
- Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd
- Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
- Helen Lentle, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol
- Claire Bennett, Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi
- Ruth Meadows, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gymunedau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-14-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- John Howells, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio
- Michelle Delafield, Uwch-reolwr Cyflawni, Ymaddasu i Newid Hinsawdd

# Eitem 1: Wcráin

1.1 Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cabinet fod y Llywodraeth wedi bod yn cydweithio â phartneriaid i baratoi ar gyfer croesawu ffoaduriaid o Wcráin i Gymru. Oherwydd hynny, roedd Prif Weithredwr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ac Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi cael eu gwahodd i fod yn bresennol yn rhan gyntaf cyfarfod y Cabinet.

1.2 Yn ogystal â'r £4m a roddwyd i'r Pwyllgor Argyfwng Trychinebau, roedd Llywodraeth Cymru wedi anfon y llwyth cyntaf o gyflenwadau meddygol i Wcráin, ac roedd disgwyl y byddai rhagor yn cael eu hanfon yn y dyddiau nesaf.

1.3 Yn ystod y dyddiau diwethaf, cynhaliwyd trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch ei Chynllun Noddi Dyngarol. Roedd Gweinidogion y DU yn rhagweld y byddai dau lwybr y gellid eu dilyn i baru ffoaduriaid â chynigion llety. Y cam cyntaf fyddai cynigion unigol, lle y byddai'n bosibl y gallai'r paru ddigwydd â theuluoedd noddi drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Ar ôl i ffoaduriaid gael eu paru â noddwyr byddai angen iddynt wneud eu ffordd eu hunain i'r DU a chwblhau'r gwiriadau adnabod biometreg wrth gyrraedd.

1.4 Byddai'r ail gam yn paru grwpiau o ffoaduriaid â lleoedd a gynigir gan noddwyr unigol. Roedd y Prif Weinidog a Phrif Weinidog yr Alban wedi ysgrifennu i Lywodraeth y DU yn cynnig y dylai'r ddwy Lywodraeth allu gweithredu fel uwch-noddwyr gan gymryd cyfrifoldeb dros garfannau o ffoaduriaid o fewn eu gwledydd.

1.5 Roedd Cymru wedi ymrwymo i gefnogi 1,000 o bobl i ddechrau yng ngham cyntaf y cynllun, yn seiliedig ar brofiad y rhaglenni adsefydlu llwyddiannus ar gyfer ffoaduriaid o Affganistan a Syria, ond roedd Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i adeiladu ar hyn ac i dderbyn gyfran gymesur o'r ffoaduriaid o Wcráin sy'n penderfynu dod i'r DU.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-14-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

1.6 Byddai’r gwaith ar y cyd â Llywodraeth y DU yn parhau o ran datblygu’r cynllun er mwyn sicrhau bod Cymru yn barod i dderbyn ffoaduriaid o’r penwythnos ymlaen, pan fyddai’r fisas cyntaf, a’r paru a oedd wedi digwydd o dan y cynllun newydd, yn barod.

1.7 Yn y cyfamser, roedd y Gweinidogion yn gweithio’n agos gydag Awdurdodau Lleol, CLlLC, CGGC, a phartneriaid eraill i baratoi ar gyfer croesawu ffoaduriaid i Gymru.

1.8 Dywedwyd bod swyddogion yn cynnal trafodaethau â Thrysorlys y DU i weld faint o gyllid ychwanegol a fyddai ar gael, ac a fyddai’r cyllid hwnnw’n gyfran Barnett neu wedi ei ddyrannu at ddiben penodol.

1.9 Dywedodd y Cyng. Morgan wrth y Cabinet bod angen i Lywodraeth y DU ddarparu mwy o eglurder o ran y llwybrau mynediad, yr amserlenni ar gyfer cyrraedd, a niferoedd y ffoaduriaid er mwyn osgoi’r posibilrwydd y gallai rhai ardaloedd gael eu gorlethu. Roedd yn bwysig sicrhau bod y canolfannau derbyn arfaethedig yn cael eu gwasgaru mewn modd teg ar draws Cymru.

1.10 Dywedodd Prif Weithredwr CGGC fod Cynghorau Gwirfoddol Sirol ar gael i weithio gyda chanolfannau derbyn i roi cyngor a chymorth, ac i sefydlu fframwaith cymorth brys.

1.11 Cofnododd y Prif Weinidog ei ddiolch i swyddogion a phartneriaid am eu gwaith dros y penwythnos i ymateb i gynlluniau Llywodraeth y DU, a datblygu cymorth i’w ddarparu i ffoaduriaid yng Nghymru.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

2.1 Cymeradwyodd y Cabinet gofnodion 7 Mawrth.

## Eitem 3: Busnes y Senedd

3.1 Ystyriodd y Cabinet gynnwys grid y Cyfarfodydd Llawn gan nodi bod

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-14-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

pleidlais wedi ei threfnu ar gyfer 6:50pm dydd Mawrth, a thua 6:25pm dydd Mercher.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-14-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Cyfarfod y Cabinet: 14 Mawrth 2022** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-14-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-14-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.